



Cynllun corfforaethol 2015–2016

Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw'r corff rheoleiddio proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU. Ein diben yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Ein nod yw darparu rheoliadau gwyb sy'n canolbwyntio ar gleifion a'r cyhoedd, a thrwy wneud hyn rydym yn anelu at fodloni'r Safonau Rheoleiddio Da a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Ein rôl

Yn bennaf oll, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd ein gwaith craidd fel y gallwn ddangos perfformiad cryf yn gyson. Mae ein swyddogaethau statudol craidd fel a ganlyn:


- Rydym yn pennu ac yn hyrwyddo safonau addysg ac ymarfer.
- Rydym yn cynnal cofrestr o'r sawl sy'n cyrraedd y safonau hyn.
- Rydym yn gweithredu pan fydd amheuaeth ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer.

Ein blaenoriaethau strategol

Cytunodd ein Cyngor ar ein Strategaeth ar gyfer 2015-2020 ym mis Mawrth 2015 a gellir ei darllen ar [ein gwefan](#). Mae'n nodi pedair blaenoriaeth datblygu strategol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd gyda gwell effeithiolrwydd ac effaith, sef:

- Rheoleiddio effeithiol
- Defnyddio gwybodaeth
- Cydweithredu a chyfathrebu
- Sefydliad effeithiol

Y gweithgareddau a nodir isod yw'r prif ddarnau o waith y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod 2015-2016 i sicrhau gwelliannau a fydd yn cyfrannu at y broses o gyflawni ein strategaeth gorfforaethol.



Blaenoriaeth strategol 1

Rheoleiddio effeithiol

Mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio statudol craidd yn gyson dda er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd a'u diogelu. Byddwn yn parhau i wella ein swyddogaethau craidd, gan ganolbwyntio ar gyflymder, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd ein penderfyniadau. Yn ogystal, bydd angen i ni ymateb i ofynion newydd a newid deddfwriaethol.

Yn ystod 2015–2016, byddwn yn:

- Gweithio mewn partneriaeth â phedair llywodraeth y DU i sefydlu model ail-ddilysu effeithiol, tryloyw a chymesur ar ddiwedd 2015.
- Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n prosesau er mwyn gweithredu gofynion newydd Cyfarwydddeb yr UE ar Gydabod Cymwysterau Proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno rheolaethau iaith.
- Ymgorffori a gwerthuso'r swyddogaeth archwilio achosion newydd, gweithredu'r pwerau newydd i adolygu penderfyniadau 'dim achos i'w ateb', a buddsoddi yn y broses o atgyfnerthu ein swyddogaethau sgrinio ac ymchwilio er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau rheolaethol o ansawdd cyson yn ein holl brosesau addasrwydd i ymarfer.
- Sefydlu gwasanaeth cysylltu â chyflogwyr sy'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, yn gwella dealltwriaeth o'n prosesau ac yn helpu cyflogwyr i benderfynu pa bryderon addasrwydd i ymarfer y mae cyfiawnhad dros eu hatgyfeirio atom ni ac y mae'n well iddynt gael eu trin yn lleol.
- Datblygu'r sefyllfaoedd polisi angenrheidiol ar gyfer agweddau penodol ar y gofrestr yn barod ar gyfer bil rheoleiddio posibl. Byddwn yn gwneud gwaith cwmpasu ac ymchwil cychwynnol ar gyfer adolygiad tymor hwy o rôl, strwythur a chynnwys y gofrestr er mwyn sicrhau ei bod yn ategu'r gwaith o ddiogelu'r cyhoedd mewn cyd-destun gofal iechyd ac ymarfer newidiol.
- Cyhoeddi cynllun cyflawni addysg strategol a dechrau ei roi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau gwerthusiad o'n safonau addysg cyn cofrestru, cyhoeddi safonau addasrwydd i ymarfer newydd ar gyfer rhagnodi a diwygio ein safonau bydwreigiaeth cyn cofrestru i'w cyhoeddi yn 2016.
- Gwneud gwaith datblygu polisiau a deddfwriaeth gyda'r bwriad o ddileu arolygu bydwreagedd o'n deddfwriaeth.
- Cyflawni rhaglen o adolygiadau rheoli ansawdd yn ein holl gyfarwyddiaethau rheoleiddiol. Caiff amcanion ansawdd eu hymgorffori mewn amcanion staff a byddwn yn adolygu effaith gyffredinol ein rhaglen ansawdd ar ddechrau 2016.

Blaenoriaeth strategol 2

Defnyddio gwybodaeth

Drwy wella'r modd rydym yn defnyddio tystiolaeth o ddata ac ymchwil, byddwn yn dod i ddeall yr hyn a wnawn, gan ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. I ddechrau, mae angen i ni sicrhau bod ein systemau'n cefnogi'r broses o wella'r modd rydym yn casglu ac yn defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill.

Yn ystod 2015–2016, byddwn yn:

- Atgyfnerthu ein dull o reoli gwybodaeth risg reoleiddiol am leoliadau lle mae nyrsys a bydragedd yn ymarfer. Gwnawn hyn drwy sefydlu systemau a phrosesau newydd ochr yn ochr â'r gwasanaeth cysylltu â chyflogwyr ar gyfer casglu a gwerthuso gwybodaeth am risg o ffynonellau gwahanol a gweithredu arni.
- Cyflawni rhaglen o weithgareddau ymchwil a dadansoddi sy'n gwella dealltwriaeth ar gyfer prosesau rheoleiddio effeithiol – er enghraifft, gwaith i wella'r hyn a ddysgir o ddata addasrwydd i ymarfer.

Blaenoriaeth strategol 3

Cydweithredu a chyfathrebu

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein cydberthnasau er mwyn cefnogi ein diben cyffredinol sef diogelu'r cyhoedd. I ategu hyn, byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol. Rhoddir blaenoriaeth i ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr. Byddwn yn ceisio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau a rennir.

Yn ystod 2015–2016, byddwn yn:

- Hyrwyddo'r Cod drwy ymgyrch barhaus wedi'i hanelu at nyrsys, bydragedd a chyflogwyr. Byddwn yn llunio ac yn lledaenu deunyddiau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan nyrsys a bydragedd.
- Datblygu a chyhoeddi adnoddau i gyflogwyr ar y goblygiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chyflogi nyrsys a bydragedd cofrestredig.
- Ymgysylltu'n effeithiol â nyrsys a bydragedd cofrestredig a'n holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod gwaith ail-ddilysu yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.
- Sefydlu fforwm myfyrwyr a chynnal arolwg myfyrwyr er mwyn atgyfnerthu ein cydberthynas â darpar gofrestrwyr a dysgu o'r hyn y gallant ei ddweud wrthym am addysg ac ymarfer proffesiynol.
- Datblygu cydberthnasau cadarn â rheoleiddwyr eraill – yn cynnwys rheoleiddwyr system, a hyfforddi ein staff i roi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith yn gyson ac yn dda. Byddwn yn lansio canllawiau ar y cyd ar onestrwydd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Blaenoriaeth strategol 4

Sefydliad effeithiol

Byddwn yn datblygu ein systemau, adnoddau a diwylliant ymhellach er mwyn cefnogi ein hymgais i fod yn rheoleiddiwr deallus, cydweithredol a blaengar.

Yn ystod 2015–2016, byddwn yn:

- Canolbwyntio mwy ar wasanaethau i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid drwy fabwysiadu safon Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid® Swyddfa'r Cabinet ym mhob rhan o'r sefydliad. Byddwn yn comisiynu rhaglen hyfforddi staff ac asesiad cychwynnol ym mis Gorffennaf 2015, cyn datblygu cynllun datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Rhoi rhaglen gwella TGCh ar waith i ategu ein swyddogaethau craidd yn fwy effeithlon a darparu sail gadarn ar gyfer adeiladu newid mwy trawsffurfiol.
- Cynnal asesiad a mapio ein data a sefydlu rhaglen glanhau data fel gwaith paratoi hanfodol ar gyfer ein prosesau casglu, adrodd a lledaenu data a gwybodaeth yn y dyfodol.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gyflawni ein swyddogaethau fel rheoleiddiwr, darparwr gwasanaeth a chyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r broses o gasglu a defnyddio data amrywiaeth ar ein cofrestrwyr, comisiynu gwaith ymchwil a sicrhau ein bod yn cynnal hygyrchedd ein gwasanaethau i bobl ag anableddau.
- Darparu cyfleuster i nyrsys a bydwagedd dalu ffioedd cofrestru mewn rhandaliadau.
- Buddsoddi yn ein gweithlu i sicrhau ei fod wedi ymgysylltu, yn perfformio'n dda ac yn gallu diwallu anghenion y sefydliad yn y dyfodol. Gwnawn hyn drwy ddiwygio'r broses o dalu cyflogau cynyddrannol, cynnal adolygiad o strwythur a galluoedd ein gweithlu a sefydlu rhaglen ddysgu a datblygu.
- Sefydlu rhaglen arbedion effeithlonrwydd er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n effeithiol.



NMC Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7333 9333 F +44 20 7436 2924

www.nmc.org.uk

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru,
Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)